Robert Tudur Jones, 1921–98
Hanesydd, ysgolhaig, awdur ac athro

Ganed Robert Tudur Jones yn Nhyddyn Gwyn, Llanystumdwy, Cricieth ar 28 Mehefin 1921, yn un o dri o blant John Thomas ac Elizabeth Jones. Yr oedd ei rieni yn blant Diwygiad 1904–05 ac felly magwyd ef, Meg a John Ifor ar aelwyd Gristnogol yn y Rhyl lle'r oedd eu tad yn gweithio i gwmni rheilffordd yr LMS.

Fel teulu mynychent gapel Carmel a oedd yn foth i fywyd ysbrydol a chymdeithasol llawer o Gymry'r dref. Dangosodd allu anghyffredin yn gynnar. Tra byddai plant yr ysgol Sul yn dysgu adnod neu ddwy byddai ef yn dysgu pennod gyfan ar ei gof. Ergyd fawr i'r teulu oedd marwolaeth ei fam ym 1932 pan nad oedd Tudur ond yn un ar ddeg oed. Aeth i Ysgol Ramadeg y Rhyl gan ddatblygu'n academaidd ac yn ysbrydol. Dau ddigwyddiad allweddol yn ei dröedigaeth oedd pregeth gan y Parch. T. Glyn Thomas a phrofiad a gafodd mewn ymgyrch efengylu yn y Pafiliwn, y Rhyl, pryd y daeth 'wyneb yn wyneb â Iesu Grist mewn ffordd hollol bersonol'.

Yn fuan teimlodd alwad gan Dduw i'r weinidogaeth. Ym 1939 aeth i Goleg Bala-Bangor ym Mangor gan ennill gradd BA, dosbarth cyntaf, a BD. Wedyn fe aeth i Goleg Mansfield, Rhydychen, gan ennill D.Phil. am ei draethawd ymchwil 'The life, work and thought of Vavasor Powell'. Gan iddo orffen yr ymchwil yn gynnar treuliodd chwe mis yng Nghyfadran Brotestannaidd Prifysgol Strasbourg yn yr Almaen. Ym 1948 priododd â Gwenllïan Edwards ac fe'i hordeiniwyd yn weinidog ar eglwys Seion, Baker Street, Aberystwyth. Wedi cwta ddwy flynedd fe'i penodwyd yn athro Coleg Bala-Bangor, ac yn dilyn marwolaeth Gwilym Bowyer yn 1965 fe'i dyrchafwyd yn Brifathro, swydd a ddaliodd hyd ei ymddeoliad o'r coleg ym 1988. Ganwyd iddynt bump o blant, sef Nest, Rhys, Geraint, Meleri ac Alun. Aeth y tri mab i'r weinidogaeth ac ergyd drom oedd marwolaeth annhymig Rhys.

Dros y blynyddoedd bu'n weithgar mewn llu o feysydd. Trwy Goleg Bala-Bangor hyfforddodd genhedlaeth o weinidogion

ar gyfer yr eglwysi yng Nghymru a thu hwnt. Ysgrifennodd a chyhoeddodd yn ddi-dor am dros ddeugain mlynedd ac y mae cyfanswm ei lyfrau a'i erthyglau yn syfrdanol. Ymhlith ei lyfrau y mae *Congregationalism in England* (1962), *Hanes yr Annibynwyr* (1966), *Vavasor Powell* (1971), *Yr Ysbryd Glân* (1972) a *Ffydd ac Argyfwng Cenedl* (1981).

Bu'n olygydd *Y Cofiadur* (1958–72), *Welsh Nation* (1951–64) a'r *Ddraig Goch* (1964–71). Cyfrannai erthyglau niferus i gylchgronau fel *Barn*, *Y Tyst* a'r *Cymro* (ysgrifennodd 1,508 o erthyglau i'w golofn 'Tremion' yn *Y Cymro*). Pregethai yn gyson o Sul i Sul gan wasanaethu eglwysi o bob enwad ar hyd a lled Cymru. Pregethai'n eneiniedig a chlir ac ni fyddai'n goreuro ei fynegiant o'r Efengyl â dysg.

Credai fod ymwneud â'r gymdeithas ac â gwleidyddiaeth yn rhan gwbl naturiol o fywyd y Cristion. Fel cenedlaetholwr ymdrechodd yn galed i hyrwyddo'r ymwybyddiaeth Gymreig gan ysgrifennu ac areithio o blaid hawliau cenedl y Cymry a lleisio'r angen iddi gael ofalu am ei buddiannau ei hun. Yn etholiadau cyffredinol 1959 a 1964 safodd yn aflwyddiannus fel ymgeisydd seneddol dros Blaid Cymru ym Môn. Yr oedd yn ymwybodol iawn o'n cyflwr bregus fel cenedl. Bu farw yn ei gartref, Tre Ddafydd, Bangor Uchaf, ar 23 Gorffennaf 1998 a rhoddwyd ei weddillion i orffwys ym mynwent gyhoeddus Bangor. Cyflawnodd ei holl waith er gogoniant i'w Arglwydd a'i Waredwr Iesu Grist ac er hyrwyddo ei Deyrnas.

'Oherwydd dewisais beidio â gwybod dim yn eich plith ond Iesu Grist, ac yntau wedi ei groeshoelio.' *1 Corinthiaid 2:2*